Defnyddio prawf gwaed gama interfferon (γ-IFN) ar gyfer canfod twbercwlosis mewn gwartheg

Cefndir y polisi newydd ar gyfer defnyddio γ-IFN

Ym mis Awst 2006, cyhoeddodd DEFRA a Llywodraeth Cynulliad Cymru gynigion ar gyfer defnydd gorfodol o brawf gwaed gama interfferon (γ-IFN) ar gyfer canfod twbercwlosis mewn gwartheg (bTB) o dan amgylchiadau penodol. Defnyddir y prawf gwaed ochr yn ochr â'r prawf croen, fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth Ewropeaidd. Gall defnyddio'r ddau brawf ochr yn ochr a'i gilydd gyflymu'r broses o ddatrys achosion TB a gadarnheir drwy nodi cymaint o wartheg a heintiwyd â phosibl ar y cyfle cyntaf. Bydd y polisi newydd yn dod i rym o **23 Hydref 2006**.

Beth yw prawf gwaed gama interfferon (γ-IFN)?

Mae prawf gamma-interferon (γ-IFN) yn brawf gwaed in vitro a wneir mewn labordy ac a ddatblygwyd yn Awstralia ar ddiwedd y 1980au, ar gyfer canfod o TB mewn gwartheg. Mae gama interfferon yn hormon imiwnolegol a gynhyrchir ar ôl symbylu'r celloedd gwaed ag antigenau megis twbercwlin buchol.

Mae gan brawf gama interfferon sensitifrwydd ychydig yn well na'r prawf croen, ymddengys y gall ganfod anifeiliaid wedi'u heintio ynghynt na'r prawf croen a gellir ei ailadrodd mor aml ag sy'n angenrheidiol heb orfod aros 60 diwrnod rhwng y profion. Yn bwysicach na dim, ymddengys y gall profion twbercwlin a gama interfferon nodi is-boblogaethau ychydig yn wahanol o anifeiliaid wedi'u heintio, sy'n golygu y ceir y prawf mwyaf sensitif o'u defnyddio gyda'i gilydd.

Pryd y caiff y prawf gama interfferon ei ddefnyddio?

Fel rhan o ymdrechion parhaus i wella'r gyfundrefn profi bTB mewn gwartheg, mae Iechyd Anifeiliaid wedi estyn y defnydd o'r prawf gama interfferon yn y maes o 23 Hydref 2006. Nid yw'r prawf gama interfferon yn disodli'r prawf croen twbercwlin, sy'n parhau fel y prif brawf sgrinio ar gyfer bTB o hyd. Fodd bynnag, bydd Iechyd Anifeiliaid yn defnyddio'r prawf gama interfferon, fel mater o reol, i gael mwy o obaith o ganfod gwartheg wedi'u heintio (ac felly, gyflymu'r broses o ddatrys achosion TB) o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Ar anifeiliaid sy'n cael prawf twbercwlin negyddol ym mhob achos newydd o TB a gadarnheir mewn plwyfi lle cynhelir profion bob 3 neu 4 blynedd;
- Ar anifeiliaid sy'n cael prawf twbercwlin negyddol mewn achosion difrifol o TB, i lywio penderfyniadau'n ymwneud â lladd buches yn llwyr neu'n rhannol;
- Ar anifeiliaid sy'n cael prawf twbercwlin negyddol mewn buchesi sy'n parhau i ddioddef o achosion a gadarnhawyd ac sy'n methu â cael eu

datrys drwy brofion twbercwlin a ailadroddir ar ôl cyfnod byr ac sydd wedi cymryd rhagofalon bioddiogelwch buches sylfaenol
- Ar anifeiliaid heb adwaith pendant sy'n methu â chael eu datrys ar ôl eu hail brawf twbercwlin cyntaf mewn buchesi mewn plwyfi lle cynhelir profion bob 1 a 2 flynedd.

Yn ogystal, gall Iechyd Anifeiliaid weithiau benderfynu defnyddio'r prawf gwaed i leihau'r tebygolrwydd o ganlyniad positif anghywir:

- Mewn achosion o TB cronig, heb eu cadarnhau mewn ardaloedd lle cynhelir profion bob 2, 3 neu 4 blynedd, lle yr amheuir bod adweithiau croes amhenodol i dwbercwlin;
- I ailbrofi adweithyddion i'r prawf twbercwlin sydd wedi cael ymatebion croen annormal neu lle y mae amheuaeth yr amharwyd fel arall â'r prawf croen.

Bydd y prawf γ-IFN yn gweithio ar samplau a gasglwyd o ail ddiwrnod y prawf croen TB hyd at ddiwrnod cyntaf y prawf croen TB nesaf. Iechyd Anifeiliaid fydd yn penderfynu a oes angen profi ar frys ai peidio. Gall fod yn bosibl cyfuno'r prawf γ-IFN â diwrnod 1 y prawf croen TB nesaf.

Trefniadau ymarferol ar gyfer profi

Bydd yn rhaid i berchennog y fuches gasglu'r gwartheg at ei gilydd yn yr un modd ag ar gyfer prawf gwaed brwselosis / prawf croen TB.

Canlyniad yn dilyn canlyniad prawf positif, a phrofi yn y dyfodol

Mae Gorchmynion Twbercwlosis yn darparu ar gyfer lladd anifeiliaid sy'n methu unrhyw brawf diagnostig ar gyfer bTb. Ni fydd y trefniadau ar gyfer iawndal am unrhyw adweithydd prawf gama interfferon yn wahanol i'r rheini pan ddefnyddir prawf twbercwlin yn unig. Yn Lloegr, y 'dyddiad perthnasol' ar gyfer prisiad adweithydd prawf gama interfferon yw'r dyddiad y cymerwyd y sampl gwaed o'r anifail.

Lle y caiff adweithyddion γ-IFN eu datgelu sy'n ategu prawf croen TB caiff trefn arferol ar gyfer achosion o TB mewn buches ei dilyn. Gellir defnyddio γ-IFN ar amserau'r profion croen hyn.

Pwy fydd yn cynnal ac yn talu am y profion gama interfferon?

Lle y pennir prawf gama interfferon gan Iechyd Anifeiliaid, caiff y samplau gwaed eu cymryd gan swyddogion Iechyd Anifeiliaid a'u cyflwyno i labordy'r Asiantaeth Labordai Milfeddygol. Caiff y costau profi eu talu gan y Llywodraeth.

Rhagor o Wybodaeth

I drafod y prawf gama interfferon ymhellach, cysylltwch â'ch Swyddfa Ranbarthol Iechyd Anifeiliaid leol :

http://www.defra.gov.uk/animalhealth/about-us/contact-us/animal-health-offices.htm

Ceir gwybodaeth ychwanegol am ddatblygu defnydd ehangach o'r prawf γ-IFN ar-lein ar:

http://www.defra.gov.uk/animalh/tb/control/gamma.htm

PB 12267 C 10/06